## Pwyllgor y Llywydd
—
## Llywydd's Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPLl@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPLl
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLlC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLlC
0300 200 6565

Dyddiad: 16 Tachwedd 2023

Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens
Cadeirydd
Comisiwn Etholiadol Cymru
Drwy e-bost

Pwnc: Cyllideb atodol y Comisiwn Etholiadol 2023/24

Annwyl Elan,

Mae Pwyllgor y Llywydd wedi trefnu cyfarfod ychwanegol ar 22 Ionawr 2024 at ddibenion craffu ar gais y Comisiwn Etholiadol o ran ei gyllideb atodol ar gyfer 2023-24.

Cyn yr ystyriaeth hon, nododd y Pwyllgor yn y cyfarfod ar 7 Tachwedd fod Shaun McNally wedi cadarnhau mewn ymateb i gwestiwn Llŷr Gruffydd AS fod y taliad costau byw o £1500, sydd wedi'i gynnwys yn y cais atodol, eisoes wedi'i wneud i staff y Comisiwn Etholiadol. Nododd Shaun McNally hefyd na fyddech yn gallu ariannu'r taliad costau byw heb gyllid ychwanegol drwy broses y gyllideb atodol. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ystyried eich cais, a allwch chi neu y Swyddog Cyfrifyddu, roi sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra a phriodoldeb gwneud y taliad hwn cyn i'r Senedd gytuno ar gyllideb atodol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Siaradwr Tŷ'r Cyffredin ac at Lywydd Senedd yr Alban, oherwydd y croesiad o ran y cyfrifoldeb dros gytuno ar gyllid rhwng gwahanol rannau'r Comisiwn.

Yn gywir

David Rees AS, Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg/ We welcome correspondence in Welsh or English.